# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Tachwedd 2015

Amser: 08.30 - 08.44

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r cynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16 er mwyn caniatáu i Reoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 gael eu trafod, yn digwydd ar ôl eitem 3 ddydd Mawrth.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu atal y trafodion am egwyl o chwarter awr cyn dechrau ar drafodion Cyfnod 3.

Byddai cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau yn digwydd yn syth ar ôl eitem 2 ddydd Mercher.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan y Prif Weinidog i symud dadl Plaid Cymru ar Trident, y bydd yn ymateb iddi, i fod cyn dadl y Ceidwadwyr Cymreig.

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes dydd Mawrth yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 25 Tachwedd 2015 –**

- Cynnig i ddirymu Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015 (30 munud)

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

### 3.4 Craffu ar y Bil Cymru Drafft

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod papur yn nodi'r opsiynau posibl ar gyfer craffu ar y Bil Cymru drafft yn y Cyfarfod Llawn yn dilyn cais gan y Rheolwyr Busnes yn y cyfarfod blaenorol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau a dychwelyd at y mater yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) at y Pwyllgor Busnes i wneud cais am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) o ddydd Gwener 27 Tachwedd 2015 i 11 Rhagfyr 2015.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y mater yr wythnos nesaf, yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddydd Iau.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

### 5.1 Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ddeddfu yng Nghymru

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod papur yn adolygu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn yr adroddiad ar ei ymchwiliad i ddeddfu yng Nghymru i'r graddau y maent yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Busnes.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau a dychwelyd at y mater yn y cyfarfod ddydd Llun 30 Tachwedd 2015.

## 6 Etifeddiaeth Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

### 6.1 Papur i'w nodi-adroddiad Fforwm y Cadeiryddion Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor adroddiad Fforwm y Cadeiryddion Pwyllgor a fydd yn ffurfio rhan o'r drafodaeth ar adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2015.